Dysgu am hawliau dynol yn yr Ysgol Gynradd

Adnodd gan Amnesty International

Gweithgareddau i drafod hawliau dynol gyda phlant 5-11 oed

AMNEST RHYNGWLADOL

© Shutterstock

Amnesty International UK
Human Rights Action Centre, 17-25 New Inn Yard
London EC2A 3EA +44 (0) 20 7033 1777
sct@amnesty.org.uk

Gogledd Iwerddon
+44 (0) 28 9064 3000
nireland@amnesty.org.uk

Yr Alban
66 Hanover Street
Edinburgh EH2 1EL
+44 (0) 844 800 9088
scotland@amnesty.org.uk

Ffotograffau © Marie-Anne Ventoura oni nodir fel arall, darluniadau © Dan Jones

AMNEST RHYNGWLADOL

Gallwch ymweld â ni ar: www.amnesty.org.uk/education

Cynnwys Dysgu am hawliau dynol yn yr Ysgol Gynradd

5-7 OED

GWEITHGAREDD 1

Stori'r sudd oren 2
Deall y gadwyn gyflenwi bwyd a Masnach Deg

GWEITHGAREDD 2

Un i ti, tri i fi 9
Sut mae defnyddio bwyd yn anwastad iawn

GWEITHGAREDD 3

Chwarae teg? 11
Archwilio beth sy'n 'deg' ac yn 'annheg'

GWEITHGAREDD 4

Hawliau yn yr ystafell ddosbarth 15
Pa ffactorau sy'n cyfrannu at amgylchedd barchus?

GWEITHGAREDD 5

Archwilio hunaniaeth 17
Dysgu bod pob aelod o'r grŵp yn unigryw ac yn bwysig

7-11 OED

GWEITHGAREDD 6

Cawson ni i gyd ein geni'n rhydd 18
Cyflwyno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

GWEITHGAREDD 7

Yn eich stryd chi 19
Trafod hawliau dynol ym mywyd pob dydd

GWEITHGAREDD 8

Cwilt lluniau hawliau plant 23
Deall bod gan blant hawliau hefyd

GWEITHGAREDD 9

Ffoaduriaid – daethant am fod rhaid iddynt 29
Ystyried profiadau ffoaduriaid

GWEITHGAREDD 10

Gweithredu dros hawliau dynol 35
Sefyll dros y rhai sydd mewn angen yn eich ysgol (rhan 1) a thrwy ysgrifennu llythyron (rhan 2)



Gweithredu ffoaduriaid grŵp Amnesty Kendal

Cyflwyniad

Am yr adnodd hwn

Mae cefnogi athrawon i gyflwyno hawliau dynol i blant yn rhan hanfodol o waith Amnesty, a dyma pam rydym ni'n creu adnoddau i bob oedran a grŵp pwnc.

Mae'r llyfryn hwn yn darparu sampl o'n adnoddau addysg hawliau dynol a gynhyrchwyd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'n helpu disgyblion i ddeall eu hawliau dynol a'r gwerthoedd a'r agweddau sy'n sail iddynt. Bydd yn helpu i feithrin agwedd o barch a gwerthfawrogiad o ba mor unigryw yw pob unigolyn. Hefyd, bydd y disgyblion yn datblygu sgiliau i'w galluogi i weithredu i amddiffyn hawliau dynol.

Byddwch yn gweld set o 10 gwers ryngweithiol i blant – pump i rai dros 5 oed (Lloegr a Gogledd Iwerddon: Cyfnod Allweddol 1; Cymru: Cyfnod Sylfaen; Yr Alban: Lefel Cynnar a Lefel Gyntaf) a phump i rai 7-11 oed (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Cyfnod Allweddol 2; Yr Alban: Ail Lefel). Gallwch lungopïo ac addasu'r ymarferion hyn i'w defnyddio yn eich ystafell ddosbarth.

Dyluniwyd yr holl weithgareddau i annog disgyblion i ddechrau gyda man cychwyn syml, yn aml yn seiliedig ar rywbeth sy'n agos at eu calon neu ddigwyddiad neu sefyllfa maen nhw wedi'i brofi neu y gallant uniaethu ag ef, a'i ddatblygu. Yna, rhoddir gwahoddiad i'r disgyblion ehangu eu dealltwriaeth y tu hwnt i'w hunain a dechrau meddwl yn allanol a thuag at eraill, yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

Mae'r gweithgaredd olaf, Gweithredu dros hawliau dynol, yn esbonio sut gall ysgolion gofrestru ar gyfer y Rhwydwaith Camau Brys Iau. Mae'n gyfle i blant gymryd rhan fwy gweithredol yng ngwaith hawliau dynol Amnesty International trwy ein hymgyrch ysgrifennu llythyrau.

Yn ogystal, gallwch lawrlwytho adnoddau rhad ac am ddim ar amrywiaeth o faterion hawliau dynol ac archebu posteri, Pasbortau Fy Hawliau a nodiadau ffuglen rhad ac am ddim ar gyfer eich ysgol o
www.amnesty.org.uk/resources-schools

YMUNO Â TEACHRIGHTS

Mae TeachRights ar gyfer pob athro/athrawes sydd â diddordeb mewn cynnwys hawliau dynol yn eu haddysgu. Gallwch ymuno'n rhad ac am ddim. Mae chwe mil o bobl wedi cofrestru ac mae'r aelodau'n derbyn chwe e-gylchlythyr bob blwyddyn gyda dolenni i'n hadnoddau newydd, cyfleoedd hyfforddi, newyddion a chystadlaethau.
www.amnesty.org.uk/teachrights

YMUNO Â CHAMAU BRYS IAU

Dyluniwyd Camau Brys Iau (Junior Urgent Action) i ddisgyblion 7-11 oed i ddysgu am unigolyn y mae ei hawliau dynol yn cael eu cam-drin, a gweithredu ar hynny.
www.amnesty.org.uk/jua

YNGLŶN AG AMNESTY INTERNATIONAL

Rydym yn fudiad byd-eang o bobl arferol sy'n sefyll dros y ddynoliaeth a hawliau dynol. Ein nod yw amddiffyn unigolion lle caiff cyfiawnder, tegwch, rhyddid a'r gwirionedd eu hymwrthod.

Rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth pobl o hawliau dynol ac rydym yn gwrthwynebu cam-drin hawliau dynol ym mhob man.

Mae Amnesty International yn fudiad gwirfoddol annibynnol angwleidyddol sydd â dros 7 miliwn o bobl mewn dros 150 o wledydd a thiriogaethau sy'n ymgyrchu i roi diwedd ar gam-drin hawliau dynol. Yn y DU, mae gennym ni dros 260,000 o aelodau a chefnogwyr, gan gynnwys 210 o grwpiau lleol, grwpiau ieuenctid mewn tua 300 o ysgolion uwchradd a dros 500 o athrawon cynradd yn ein cynllun ysgrifennu llythyron Camau Brys Iau. Gall ein Siaradwyr Ysgol gwirfoddol ymweld ag ysgolion i roi sgwrs, gweithdy neu wasanaeth am faterion yn ymwneud â hawliau dynol.

Am ragor o wybodaeth neu ymholiadau:
www.amnesty.org.uk/education
E-bost sct@amnesty.org.uk
Ffôn 020 7033 1777

Gweithgaredd 1 5-7 Oed

Stori'r sudd oren

© Tracy Decourcy, Dreamstime

Bydd angen

- Bag o orenau
- Gwasgwr neu suddwr ffrwythau
- Symbol Masnach Deg
- **Taflen Adnoddau 1** Dilyniant lluniau sudd oren (i'r athro)
- **Taflen Adnoddau 2** Cardiau lluniau sudd oren (argraffwch un set a lamineiddiwch)

Ar gyfer estyniad/gwaith cartref yn unig:

- Map o'r byd

Nod

Dechrau deall rhyngddibyniaeth pobl o gwmpas y byd trwy ystyried sut mae bwyd yn cael ei dyfu a'i brosesu.

5-7 oed **1 awr**

Nodiadau'r athro

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu disgyblion i ddeall egwyddorion sylfaenol masnach fyd-eang. Y pwrpas yw archwilio o ble mae eitem bob dydd yn dod a sut mae'n ein cyrraedd ni, ac annog disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a rhai pobl eraill o gwmpas y byd. Hefyd, mae'n creu dealltwriaeth well o gadwyn gyflenwi'r cynnyrch ac mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer ystyried Masnach Deg fel mater o hawliau dynol.

Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r plant beth gawsant i swper neithiwr neu i frecwast bore ma. Sut cyrhaeddodd y bwyd eu plât? O ble y daeth yr holl fwyd? Pa brosesau oedd ynghlwm â'i dyfu, ei symud a'i baratoi? Pwy wnaeth y gwaith?

Yna, gofynnwch i'r plant dynnu croen yr orenau, eu rhannu, eu blasu a gwasgu'r sudd ohonyn nhw – gallwch ddefnyddio gwasgwr neu beiriant sudd.

Trafodaeth

Gofynnwch i'r dosbarth:

- O ble mae orenau'n dod?
- Sut maen nhw'n cyrraedd yma?
- Faint o ddwylo oedd eu hangen i dyfu'r oren, ei ddyfrio, ei gyneafu, ei lanhau, tynnu'r croen, ei wasgu a'i arllwys, ei gludo a'i werthu cyn i'r sudd gyrraedd eich bwrdd bwyd?

Cardiau lluniau

Esboniwch i'r dosbarth y byddant yn adrodd ac yn actio stori'r sudd oren – sef y gadwyn gyflenwi a sut mae'n pasio trwy nifer o ddwylo, camau a phrosesau, o'i blannu i'w yfed. Gwasgarwch y *cardiau lluniau sudd oren* (Taflen Adnodd 2) ar hap ar fwrdd. Gofynnwch i'r plant geisio rhoi'r cardiau yn eu trefn. Gwiriwch fod y drefn yn gywir (neu ei aildrefnu) trwy ddefnyddio Taflen Adnodd 1 *Dilyniant lluniau sudd oren* ac yna adroddwch y stori gan ddefnyddio'r lluniau.

© Bioversity International

Rhannwch y dosbarth yn barau, a rhowch *Gerdyn llun sudd oren* iddyn nhw. Rhaid iddyn nhw:

- ganfod ystyr eu llun a'i esbonio mewn ychydig eiriau;
- creu meim gan ddefnyddio eu dwylo i ddangos gweithred y gweithiwr neu'r peiriant sydd yn eu llun

Dewch â'r holl blant ynghyd i eistedd mewn cylch. Yn eu trefn, gofynnwch i bob pâr godi, dangos eu llun, adrodd eu rhan nhw o'r stori ac actio eu meim dwylo.

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o LIFT OFF, *The Right Start*, Where's my dinner?

Rhan 1 5-7 Oed Gweithgaredd 1

Stori'r sudd oren parhad

I rhythm

Ailadroddwch y broses – ond i rhythm y tro hwn. Rhaid i bawb guro eu dwylo ac yna taro eu cluniau dair gwaith mewn rhythm. Mae'r pâr cyntaf yn codi, dangos eu llun, dweud eu geiriau ac yn actio eu meim. Yna, mae'r plant eraill yn copïo'r meim hwn ac mae'r clapio'n ailddechrau. Mae'r pâr nesaf yn codi ac yn y blaen o amgylch y cylch. Gellir ailadrodd hyn mewn gwasanaeth.

Trafodaeth

- Dewiswch un o'r lluniau.
- Beth ddylai ddigwydd yn y llun hwnnw i sicrhau bod y person/pobl yn cael eu trin yn deg?
- Beth ddylai ddigwydd yn y llun hwn i sicrhau bod pawb/yr amgylchedd yn cael gofal?
- Dangoswch y symbol Masnach Deg i'r plant. Ydyn nhw'n ei adnabod/gwybod beth mae'n ei olygu?
- Esboniwch mai cyflog yw'r arian a gewch am wneud gwaith. Mae Masnach Deg yn golygu bod pawb sy'n gweithio i ofalu am yr orenau'n cael cyflog teg. Mae hefyd yn golygu bod yr orenau'n cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n ddiogel i'r gweithwyr a'r amgylchedd.

Estyniad/gwaith cartref

- Gofynnwch i ddisgyblion hŷn ddilyn taith y sudd oren ar fap o'r byd. Mae'r rhan fwyaf o orenau'n dod o Frasil, UDA, Tsieina, Sbaen, Mecsico, India ac Israel.
- Gall y disgyblion ymchwilio i b'un a ddefnyddir cynhyrchion Masnach Deg yn eu hysgol.

© Dmitry Kalinovsky, Shutterstock

Gweithgaredd 1 TAFLEN ADNODDAU 1

Dilyniant lluniau sudd oren

Stori'r sudd oren
dilyniant lluniau

1 Ffermwyr ym Mrasil yn palu'r tir
2 Ffermwyr yn plannu hadau oren
3 Ffermwyr yn dyfrhau'r hadau
4 Ffermwyr yn pigo'r orenau
5 Ffermwyr yn codi bocsys o orenau ar gerbyd
6 Gweithwyr ffatri'n glanhau ac yn torri'r orenau
7 Gweithwyr ffatri'n gwasgu'r sudd oren
8 Gweithwyr ffatri'n rhoi'r sudd oren mewn cartonau
9 Gyrwyr fforch godi'n llwytho cratiau o sudd ar gynhwysydd
10 Gyrwyr lori yn mynd â'r cynhwysydd i'r porthladd
11 Gyrwyr craen yn llwytho'r sudd ar y llong
12 Morwyr yn llywio'r llong dros y môr garw i'r DU
13 Gyrwyr lori'n mynd â'r cynhwysydd i'r archfarchnad
14 Gweithwyr siop yn gosod y cartonau ar y silffoedd
15 Gweithwyr siop yn gwerthu carton o sudd oren i ni
16 Mam yn arllwys y sudd oren gartref

Cardiau lluniau sudd oren

1



2

3

4

Gweithgaredd 1 TAFLEN ADNODDAU 2

Cardiau lluniau sudd oren parhad

5 ✂

6 ✂

7 ✂

8 ✂

Cardiau lluniau sudd oren parhad



9

10

11

12

Gweithgaredd 1 TAFLEN ADNODDAU 2

Cardiau lluniau sudd oren parhad

13 ✂

14 ✂

15 ✂

16 ✂

Gweithgaredd 2

Un i ti, tri i fi

Bydd angen

I greu te parti ffug:

- Platiau papur, glud, pensiliau/pinnau lliwio
- Defnydd a phapur sgrap
- Lluniau o fwyd a diod o gylchgronau
- Pecyn o reis
- **Taflen Adnoddau 1** Tocynnau pryd (argraffwch un fesul plentyn a'u rhoi mewn bocs)
- Cadeiriau (i draean y dosbarth cael eistedd)

Nod

Cydnabod nad yw cyflenwad bwyd y byd yn cael ei rannu'n gyfartal, a chyflwyno'r cysyniad o degwch a chyfiawnder mewn cyd-destun byd-eang.

5+ oed	**30-40 munud**

Beth i'w wneud

Dywedwch wrth y plant eu bod nhw'n mynd i de parti (ffug). Dosbarthwch blatiau papur.

GWLEDD
Gofynnwch iddyn nhw 'greu' pryd anhygoel gan ddefnyddio pinnau lliwio, lluniau o gylchgronau a deunyddiau sgrap er mwyn llenwi'r plât yn llwyr. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu eu henw ar gefn eu plât

REIS
Yn awr, gofynnwch iddyn nhw baratoi pryd bwyd arall, ond y tro hwn, gydag ychydig ddarnau o reis i'w gludo ar y plât. Rhaid i bawb ysgrifennu ei enw ar gefn eu plât eto.

Gofynnwch i'r dosbarth osod eu plât GWLEDD ar un bwrdd a'u plât REIS ar un arall. Esboniwch mai dim ond rhai ohonyn nhw fydd yn mynd i'r wledd.

Penodwch ddau o'r dosbarth i fod yn weinyddion – un i 'weini"r WLEDD a'r llall i 'weini"r platiau REIS. Gwahoddwch weddill y dosbarth i ddewis tocyn pryd o'r bocs, fel twba lwcus.

Rhaid i weinydd y WLEDD arwain y draean a ddewisodd docyn GWLEDD at y platiau gwledd. Dylent ddweud beth yw eu pryd, ac yna aros i weinydd y WLEDD roi'r pryd iddyn nhw gan foesymgrymu, cyn eu harwain at y bwrdd GWLEDD addurnedig.

Dylai'r gweinydd REIS arwain y ddau draean sydd â thocyn REIS at y bwrdd arall, a dweud wrthyn nhw i godi eu platiau reis. Dylid eu cyfeirio at gornel lawn o'r ystafell a gofyn iddyn nhw sefyll yn ystod eu pryd.

Nesaf, dylai'r holl blant (ac eithrio'r gweinyddion) siarad â'u cymydog am beth maen nhw'n ei fwyta, gan ddisgrifio eu pryd yn fanwl wrth esgus ei fwyta.

Trafodaeth

Ar ôl y 'pryd bwyd', gofynnwch i'r plant sut oedden nhw'n teimlo am y gweithgaredd.

- Sut oedd hi'n teimlo i fod yn y grŵp 1/3 a aeth i'r wledd a chael digon i'w fwyta?
- A sut oedd y rhai a gafodd ychydig ddarnau o reis yn teimlo?

Esboniwch y dylai fod digon o fwyd yn y byd ar gyfer pawb. Ond, fel y wledd hon, nid yw bwyd y byd wedi'i rannu'n deg. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, mae traean y bobl yn y byd heddiw'n cael eu bwydo'n dda, neu'n bwyta gormod, hyd yn oed, ond nid yw dau draean o bobl y byd yn cael digon o fwyd. Gofynnwch i'r plant a yw'n deg bod rhai pobl ddim yn cael digon i'w fwyta. Beth maen nhw'n meddwl dylid ei wneud am hyn?

© stocksolutions. © Nipaporn Panyacharoen, Shutterstock

Ffynhonnell: LIFT OFF, *The Right Start*, One for you, three for me.

Tocynnau prydau

Torrwch docyn pryd ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth – dylai traean dderbyn tocyn gwledd, dylai dau draean dderbyn y tocyn reis. Gosodwch y cyfan mewn bocs. Gofynnwch i'r plant ddewis tocyn fel twba lwcus. Gweler y cynllun gweithgareddau am fanylion.

Tocyn pryd

GWLEDD
1/3

Tocyn pryd

REIS
2/3

Tocyn pryd

REIS
2/3



Gweithgaredd 3

Chwarae teg?



Bydd angen

- **Taflen Adnoddau 1** Cardiau procio chwarae teg (argraffwch un set a'u lamineiddio)

Nod

Datblygu dealltwriaeth o gysyniadau tegwch a chyfiawnder.

5+ oed **30 munud**

Beth i'w wneud

Cyflwynwch y pwnc ar gyfer y wers hon: tegwch. Fel dosbarth, edrychwch ar bob llun o Daflen Adnoddau 1 Cardiau procio chwarae teg o blant yn ymddwyn yn deg a phlant yn cael eu trin yn annheg, a'u trafod.

- Pa rai sy'n dangos sefyllfa deg?
- A sefyllfa sy'n annheg? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

Trafodwch ystyr y geiriau 'teg' ac 'annheg'.

Gellir defnyddio'r darlun Yn eich stryd chi yng Ngweithgaredd 7 fel ysgogiad gweledol i drafod tegwch.

Gofynnwch i'r plant baratoi ar gyfer gweithgaredd amser cylch. Gosodwch reolau ar gyfer y drafodaeth – er enghraifft, gofynnwch i blant beidio ag enwi plant eraill wrth rannu eu straeon.

Ewch o amgylch y cylch i ofyn i bawb feddwl am adeg pan maen nhw wedi dweud neu feddwl 'Dyw hynny ddim yn deg!' am rywbeth maen nhw wedi'i brofi neu ei weld. Beth ddigwyddodd? Sut mae'n teimlo pan rydych chi'n teimlo eich bod chi wedi cael eich trin yn annheg? Sut ymateboch chi? Sut gellid ei osgoi?

Pam mae'n bwysig trin pawb yn deg? Gofynnwch i'r dosbarth gynnig awgrymiadau. Gadewch amser i drafod enghreifftiau o sut i wneud hyn yn eu bywydau bob dydd. Gallech ddilyn hyn gyda Gweithgaredd 4, Hawliau yn yr ystafell ddosbarth.

© Daxiao Productions / Shutterstock.com

© Dawn Shearer-Simonetti

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o LIFT OFF, *The Right Start*.

Cardiau procio chwarae teg

Gweithgaredd 3 TAFLEN ADNODDAU 1

Cardiau procio chwarae teg parhad





Cardiau procio chwarae teg parhad



Gweithgaredd 4

Hawliau yn yr ystafell ddosbarth

Bydd angen

- **Taflen Adnoddau 1** Siarter hawliau'r dosbarth (gwnewch hwn yn fwy a'i arddangos)
- Papur a phensiliau
- Siart droi neu fwrdd gwyn

Nod

Annog plant i feddwl am hawliau yn yr ystafell ddosbarth ac amlygu ymddygiad sy'n parchu hawliau dynol.

7 oed **40 munud**

Beth i'w wneud

Esboniwch fod gan bawb yn yr ysgol hawl i ddysgu, bod yn ddiogel a chael eu trin yn deg. Hefyd, mae'n bwysig ymddwyn mewn ffordd sy'n parchu hawliau dynol pobl eraill.

Hawliau

Gofynnwch i'r disgyblion beth ellir ei wneud yn y dosbarth i sicrhau bod pawb yn mwynhau eu hawl i;

- fod yn ddiogel;
- cael eu trin yn deg;
- dysgu.

Gofynnwch iddyn nhw weithio'n unigol i ysgrifennu tri pheth fydd yn helpu'r hawliau hyn, e.e.:
Yr hawl i fod yn DDIOGEL – rhoi pethau peryglus i ffwrdd
Yr hawl i gael eich TRIN YN DEG – pawb yn cael tro
Yr hawl i DDYSGU – digon o lyfrau a phapur

Nesaf, mewn parau, dylai'r plant roi eu syniadau at ei gilydd a chytuno ar y tri gorau gyda'i gilydd. Yna, cynaliwch drafodaeth ddosbarth a lluniwch restr o hyd at 10 eitem ar y bwrdd neu'r siart droi y mae pawb yn cytuno arnynt. Dyma **Siarter hawliau'r dosbarth**.

Dangoswch a thrafodwch Taflen Adnoddau 1 *Siarter hawliau'r dosbarth* a luniwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgol yn Hampshire. Beth yw eu barn nhw am eu syniadau? A fydden nhw'n newid neu'n ychwanegu rhywbeth? Ydyn nhw wedi meddwl am bawb sy'n defnyddio'r ystafell ddosbarth hon, e.e. athrawon, dosbarthiadau eraill, glanhawyr?

Parchu hawliau dynol

Esboniwch fod gan bawb yn yr ysgol hawl i ddysgu, bod yn ddiogel a chael eu trin yn deg. Os yw'n hawl i ni, mae'n hawl i bawb arall hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n galluogi pawb i fwynhau eu hawliau.

Hawliau

Mae gan bawb hawl i:

- dderbyn addysg dda, llawn hwyl sy'n eang ac yn gytbwys
- derbyn amgylchedd dosbarth diogel
- gael preifatrwydd, e.e. ein loceri a'n byrddau
- rhywun i wrando arnom a chael cyfle i ddweud ein barn
- adnoddau o ansawdd da
- athrawon ac oedolion gofalgar a theg
- cael hwyl a mwynhau blwyddyn 6, yn enwedig amser chwarae
- cyfeillgarwch a chydweithio gydag eraill

Trafodaeth

Fel dosbarth, trafodwch rai o'r canlynol:

- A allwch chi feddwl am enghreifftiau o bobl yn amharchu hawliau dynol pobl eraill? Pam mae rhai pobl yn ymddwyn fel hyn? Tasg drafod: Beth allen nhw ei wneud i wneud yn iawn am amharchu hawliau pobl eraill?
- Sut gallwn osgoi ymddwyn yn annheg ac amharchu hawliau pobl eraill?
- Sut mae'n teimlo i gael eich hawliau wedi'u hamharchu gan eraill?

A all y plant gytuno ar sut i ymddwyn er mwyn parchu hawliau pawb?

Estyniad/gwaith cartref

- Mewn grwpiau, gall y plant greu rhestrau o hawliau ac ymddygiad ar yr iard chwarae, gartref neu yn y gymuned.

SYLWER: Am ragor o wybodaeth am ddatblygu siarteri dosbarth, gweler y cyngor a ddatblygwyd gan UNICEF fel rhan o'u rhaglen Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. **www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources**

Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 1.

Siarter hawliau'r dosbarth

Meddyliwch am restr hawliau eich dosbarth. Lluniwyd y siarter hwn gan ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgol a gymerodd ran ym menter Rights, Respect, Responsibility yn Hampshire.

Hawliau

Mae gan bawb hawl i:

- dderbyn addysg dda, llawn hwyl sy'n eang ac yn gytbwys
- derbyn amgylchedd dosbarth diogel
- gael preifatrwydd, e.e. ein loceri a'n byrddau
- rhywun i wrando arnom a chael cyfle i ddweud ein barn
- adnoddau o ansawdd da
- athrawon ac oedolion gofalgar a theg
- cael hwyl a mwynhau blwyddyn 6, yn enwedig amser chwarae
- cyfeillgarwch a chydweithio gydag eraill

Gweithgaredd 5

Archwilio hunaniaeth

Bydd angen

- Man agored mawr (fel neuadd neu gampfa)

Nod

Helpu plant i ddeall er bod gwahaniaethau rhyngom, rydym ni i gyd yn gyfartal. Mae gennym ni rai pethau'n gyffredin â phobl eraill ond mae gennym ni hefyd wahanol alluoedd a nodweddion sy'n ein gwneud ni'n unigryw fel pobl

5+ oed **20 munud**

Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r plant sefyll mewn cylch yn dal dwylo. Dywedwch nodwedd o'r rhestr (ar y dde). Dylai pob plentyn sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwnnw fynd i mewn i'r canol fel grŵp. Yna, dylent ddychwelyd i'r cylch gwreiddiol. Dylech gynnwys un nodwedd sy'n disgrifio pob un ohonynt.

Yn awr, gofynnwch i'r plant gynnig nodweddion ac ailadroddwch y broses.

Trafodaeth

- Oedd y grwpiau yn y canol yn cynnwys yr un bobl bob tro?
- A oedd bechgyn a merched yn perthyn i'r un grwpiau?
- A allwch chi ddyfalu nodweddion rhywun trwy edrych arnyn nhw?
- Oedd y grwpiau yr un maint bob tro?
- A yw pob plentyn yn gyfartal?
- Pa grŵp synnodd chi fwyaf?
- A oedd rhywun ar ei ben ei hun? Sut roedd hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo?
- Beth yw'r pethau da am berthyn i grŵp?

Rhyddid i fod yn chi eich hun

- Beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i bawb arall?
- Beth sydd gennych chi'n gyffredin â'ch ffrindiau?
- Pam mae'n bwysig bod yn chi eich hun?

Gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun neu hunan-bortread sy'n pwysleisio rhywbeth sy'n eu gwneud nhw'n unigryw.

NODWEDDION I'W GALW

Plant dan 10 oed

Bechgyn

Plant sydd â mwy na 3 brawd a chwaer

Plant sy'n gwisgo sbectol heddiw

Plant sy'n hoffi Charlie and Lola

Plant sy'n hoffi Tomos y Tanc

Plant tal

Plant sydd ddim yn hoffi pêl-droed

Plant caredig iawn

Plant â chath fel anifail anwes

Plant â chrocodeil fel anifail anwes

Plant sy'n hoffi siocled

Plant swnllyd iawn

Plant sy'n gwybod beth yw ystyr eu henw cyntaf

Plant sy'n siarad iaith arall

Plant â gwallt hirach na'u hysgwyddau

Plant sydd wedi bod i wlad arall

Plant sy'n cael eu pen-blwydd yn yr haf

Plant sy'n mynd i'r ysgol

Plant sydd weithiau'n gwisgo dillad arbennig

Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 13.

Gweithgaredd 6 7-11 Oed

Cawson ni i gyd ein geni'n rhydd

Bydd angen

- **PowerPoint** Lluniau Cawson ni i gyd ein geni'n rhydd (argraffu un llun fesul disgybl)
- Ffilm Amnesty *Everybody – We are all born free* (YouTube, chwiliwch am y teitl)

Ddim yn hanfodol ond yn ddel-frydol ar gyfer y weithgaredd hon:

- Pasport Fy Hawliau Amnesty (un fesul plentyn, archebwch becyn dosbarth rhad ac am ddim: 01788 545553, cod cynnyrch ED112)

Nod

Cyflwyno plant i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Trwy adrodd straeon ac ysgrifennu creadigol, byddant yn archwilio hawliau dynol sylfaenol a'u hystyr.

6+ oed **1-2 awr**

Beth i'w wneud

Chwaraewch y ffilm *Everybody - We are all born free*. Stopiwch y fideo ar ôl un funud.

Hanes

Esboniwch: ar ôl yr Ail Ryfel Byd, pan gollodd filiynau o bobl eu bywydau a miliynau mwy yn cael eu hanfon o'u cartrefi, daeth arweinwyr y byd at ei gilydd. Sefydlon nhw sefydliad newydd – y Cenhedloedd Unedig – i helpu i atal rhyfeloedd rhwng gwledydd ac adeiladu byd gwell. Un o'i ddyletswyddau cyntaf oedd llunio rhestr o hawliau dynol sy'n perthyn i bawb yn y byd. Yr enw am hwn oedd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Gwnaeth llywodraethau'r byd addewid i ddweud wrth bawb am yr hawliau hyn a'u hamddiffyn.

Dywedwch wrth y dosbarth y bydd y ffilm yn dangos rhai o'r hawliau dynol hyn. Chwaraewch weddill y ffilm a gofynnwch iddyn nhw siarad mewn parau i weld sawl hawl a rhyddid y gallant eu cofio.

Dylai'r adborth gynnwys ein hawl i fyw, priodi, mynd i'r ysgol a chwarae; ein hawl i gael bwyd a lloches ac i deithio, ein hawl i feddwl a dweud ein credoau, ein hawl i gael ein trin yn deg; a'n hawl i heddwch a threfn.

Esboniwch fod pob un o'r 30 hawl yn y Datganiad yn cael eu darlunio yn y llyfr We are all born free. Dangoswch y lluniau We are all born free ar Powerpoint, ac esboniwch bod hwn yn enghraifft o rai o'r hawliau a darluniau hyn.

Dosbarthwch y lluniau rydych chi wedi'u hargraffu o gwmpas y dosbarth a sicrhewch fod dau neu dri o blant yn gweithio (ar wahân) ar bob llun. Gofynnwch i'r plant edrych ar eu darlun a darllen y geiriau'n ofalus iawn.

Ysgrifennu stori

Nesaf, gwahoddwch bawb i ddychmygu eu hunain tu mewn i'r llun, yn cymryd rhan ynddo. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu stori fer am eu hantur yn y llun. Rhaid i'r stori fod am eu hawl ddynol a, rhywle yn y stori, rhaid i rywun ddweud y geiriau sydd yn eu herthygl o'r Datganiad.



We Are All Born Free, cyhoeddwyd gan Amnesty International a Frances Lincoln 2008.



Ar ôl ysgrifennu'r straeon, dylai'r plant sydd â'r un erthygl a llun eistedd gyda'i gilydd i rannu eu straeon.

- Oedd eu straeon yn debyg?
- Beth oedd yn llwyddiannus/beth fyddent yn ei wneud yn wahanol?

Rhannwch rai o'r straeon â'r dosbarth cyfan a/neu eu harddangos. Os ydych chi wedi archebu eich pecyn dosbarth Pasport Fy Hawliau rhad ac am ddim, dosbarthwch nhw i'r dosbarth. Gallant ysgrifennu eu henw ar y dudalen gyntaf.

Roedd Eleanor Roosevelt yn credu mai'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol oedd ei llwyddiant mwyaf, ac ar 10fed pen-blwydd y Datganiad, dywedodd:

'Wedi'r cyfan, ble mae hawliau dynol yn dechrau? Mewn mannau bach, yn agos at adref; ym mywyd pob dydd pobl – eu cymdogaeth, eu hysgolion neu golegau, y ffatrïoedd, ffermydd neu swyddfeydd lle maen nhw'n gweithio, lle mae pob dyn, menyw a phlentyn yn gobeithio am gyfiawnder a chyfle cyfartal, urddas cyfartal heb wahaniaethu. Os nad oes gan yr hawliau hyn ystyr yno, nid oes llawer o ystyr ganddynt yn unrhyw le. Heb weithredu gan ddinasyddion i'w cynnal yn agos at adref, nid oes llawer o obaith am gynnydd yn y byd ehangach.'

Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 4.

Gweithgaredd 7

Yn eich stryd chi

Bydd angen

- **Taflen Adnoddau 1** Darlun Yn eich stryd chi (dangoswch hwn ar fwrdd gwyn a chrëwch gopi lliw, a'i rannu yn 4 adran, un fesul grŵp)
- **Taflen Adnoddau 2** Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, fersiwn crynodeb, neu
- Pecyn **Pasport Fy Hawliau** rhad ac am ddim Amnesty (un fesul plentyn) Gweler chwith.
- Ugain sticer cylch bach mewn tri lliw (fesul grŵp)

Archebwch **boster Yn eich stryd chi** (cod cynnyrch ED142) a phecyn dosbarth **Pasport Fy Hawliau** (cod cynnyrch ED112): 01788 545553

Nod

Ymchwilio a deall sut mae hawliau'n berthnasol i fywyd pob dydd trwy astudio golygfa stryd sy'n dangos hawliau dynol ar waith. Bydd y myfyrwyr yn dysgu mwy am y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, ac yn amlygu hawliau sy'n cael eu mwynhau, eu gwrthod a'u gorchymyn.

7+ oed **1-2 awr**

Beth i'w wneud

Yn fras, esboniwch wreiddiau'r Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol. Gweler yr adran Hanes yng Ngweithgaredd 6 neu chwaraewch ffilm *Everybody – We are all born free* Amnesty (YouTube, chwiliwch am y teitl).

Yn eich stryd chi

Dangoswch Taflen Adnoddau 1 Darlun *Yn eich stryd chi* ar y bwrdd gwyn. Esboniwch fod y llun yn ddarlun o fywyd pob dydd – a hawliau dynol. Mae'n dangos pobl yn gofyn am eu hawliau, mwynhau a defnyddio eu hawliau, neu gael eu hawliau wedi'u gwrthod.

Dywedwch wrth y plant eu bod nhw ar fin bod yn dditectifs hawliau dynol.

- Ar beth maen nhw'n sylwi yn y llun?
- Ble yn y byd gall y stryd (ddychmygol) hon fod?
- A oes unrhyw beth yn y llun na fyddan nhw byth yn ei weld yn y wlad hon?

Yn awr, dosbarthwch gopïau o'r Pasport Fy Hawliau neu Daflen Adnoddau 2 *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* – fersiwn crynodeb i bob plentyn. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar y llun yn fanwl. Defnyddiwch gwestiynau ysgogi a rhannwch enghreifftiau:

1. Edrychwch ar y plant ar yr iard. Pa hawl ddynol maen nhw'n ei fwynhau? (Erthygl 24, yr hawl i orffwys a hamdden).
2. Beth sy'n digwydd y tu allan i'r siop losin? A yw'r heddlu wedi dal y lleidr iawn? Tynnwch sylw at y bachgen yn rhedeg i ffwrdd gyda bag o losin yn y pellter. Pa hawl ddynol sy'n cael ei gwrthod i'r bachgen sy'n cael ei ddwrdio? (Erthygl 11, yr hawl i gael eich ystyried yn ddieuog nes y profir chi'n euog).
3. Edrychwch ar y dorf o bobl sydd wedi ymgasglu yng nghanol y llun a'u harwyddion. Pa hawl ddynol maen nhw'n gofyn amdani? (Erthygl 23, yr hawl i waith a chyflog teg).

Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 5.

Gweithgaredd 7
Yn eich stryd chi parhad

Gwaith grŵp
Trefnwch y dosbarth yn wyth grŵp bach. Dyrannwch adran o'r *Darlun Yn eich stryd chi* a set o sticeri lliw i bob adran.

Gan ddefnyddio copïau o'r Datganiad neu Pasport Fy Hawliau, esboniwch mai eu tasg fel ditectifs hawliau dynol yw chwilio am enghreifftiau o hawliau dynol yn cael eu mwynhau, gwrthod neu eu mynnu yn eu rhan nhw o'r llun.

Cod lliw
Dylent farcio pob hawl maen nhw'n eu canfod gyda'r sticer lliw cywir, e.e.:
Sticer melyn – hawl ddynol yn cael ei gwrthod;
Sticer pinc – hawl ddynol yn cael ei mwynhau neu arfer;
Sticer gwyrdd – mynnu neu ofyn am hawl ddynol

Ar bob sticer, mae angen iddyn nhw ysgrifennu rhif yr erthygl(au) yn y Datganiad y mae'r sefyllfa'n berthnasol iddi. Mae o leiaf 30 o wahanol sefyllfaoedd hawliau dynol yn y llun hwn.

I blant iau (5-7 oed), neu i arbed amser, gellir gwneud y gweithgaredd hwn ar lafar. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar y poster a phwyntio at rywbeth sy'n digwydd sy'n deg neu'n annheg. Trafodwch yr atebion.

Trafodaeth
Dylai pob grŵp adrodd eu canfyddiadau yn ôl i'r dosbarth. Trafodwch ddadleuon posibl neu wahanol ddehongliadau, e.e. a yw'r dyn digartref yn mynnu ei hawl ddynol i fwyd a lloches (gofyn am hawl) neu a yw'n arfer ei hawl i brotestio am ddigartrefedd (mwynhau hawl) neu a yw ei ddigartrefedd yn ganlyniad o'i hawliau dynol yn cael eu gwrthod?

Siaradau hawliau dynol
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach (tri i chwech). Rhowch un hawl dynol ar ddarn o bapur i bob grŵp. Esboniwch y dylai pob grŵp ddyfeisio meim o'i hawl ddynol yn cael ei fwynhau, ei wrthod neu ei fynnu. Mae angen iddyn nhw gynllunio ac ymarfer eu meim heb ei ddatgelu i weddill y dosbarth. Yna, dylai pob grŵp actio ei hawl gan ddefnyddio'r Pasport Fy Hawliau neu'r fersiwn crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

Gwaith grŵp
Procio'r meddwl
- A yw'r hawliau hyn yn cael eu mwynhau gan bawb yn y byd? Os ddim, pam lai?
- Pa hawliau sydd bwysicaf yn eich barn chi?
- Pa hawliau ydych chi'n eu mwynhau nad oes gan bobl eraill o bosibl?

Archebwch becyn dosbarth rhad ac am ddim ar gyfer Pasport Fy Hawliau, sy'n cynnwys erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Ffoniwch 01788 545553, dyfynnwch y cod ED112.

Gweithgaredd 7 **TAFLEN ADNODDAU 1**

Darlun Yn eich stryd chi

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

fersiwn crynodeb

1 Cawn ein geni'n rhydd ac yn gyfartal, a dylem drin pobl eraill yn yr un ffordd.

2 Mae gennym ni'r holl hawliau yn y Datganiad hwn, ni waeth pwy ydym ni, o ble ydyn ni'n dod na'n credoau.

3 Mae gennym hawl i fywyd, ac i fod yn rhydd a theimlo'n ddiogel.

4 Nid oes hawl gan unrhyw un ein caethiwo. Ni chawn gaethiwo unrhyw un arall.

5 Nid oes gan unrhyw un hawl i'n brifo, arteithio na chodi cywilydd arnom.

6 Mae gan bawb hawl i gael eu hamddiffyn gan y gyfraith.

7 Mae'r gyfraith yr un fath i bawb. Rhaid iddi drin pawb yn gyfartal.

8 Gallwn ni i gyd ofyn i'r gyfraith ein helpu pan nad ydym ni'n cael ein trin yn deg.

9 Nid oes gan unrhyw un hawl i'n carcharu, neu ein hanfon o'n gwlad, heb resymau da.

10 Os cawn ein cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gennym hawl i brawf teg a chyhoeddus.

11 Ni ddylid beio unrhyw un am wneud rhywbeth nes iddo gael ei brofi mai nhw a wnaeth.

12 Nid oes gan unrhyw un hawl i ddod i'n cartref, agor ein llythyrau nac amharu arnom neu ein teuluoedd heb reswm da.

13 Mae gennym ni hawl i fynd i ble yr hoffem ni yn ein gwlad ein hunan ac i deithio dramor pan fyddwn ni'n dymuno gwneud.

14 Os bydd rhywun yn ein brifo, mae gennym hawl i fynd i wlad arall i ofyn am ddiogelwch.

15 Mae gennym ni i gyd hawl i berthyn i wlad.

16 Pan fyddwn yn ddigon hen yn gyfreithiol, mae gennym hawl i briodi a magu teulu.

17 Mae gan bawb hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu.

18 Mae gan bawb hawl i'n meddyliau ni ein hunain ac i gredu mewn unrhyw grefydd.

19 Gall pawb feddwl yr hyn rydym ni eisiau, dweud ein barn a rhannu syniadau a gwybodaeth gyda phobl eraill.

20 Mae gan bawb yr hawl i gwrdd â'n ffrindiau a gweithio gyda'n gilydd yn heddychlon i ddiogelu ein hawliau. Mae gorfodi rhywun i berthyn i grŵp yn anghywir.

21 Mae gan bawb hawl i gymryd rhan yn llywodraethu ein gwlad. Dylai pob oedolyn cael ei ganiatáu i bleidleisio i ddewis ei arweinwyr.

22 Dylai'r lleoliad rydym yn byw ynddo ein helpu i ddatblygu ac elwa ar yr holl fanteision (diwylliant, gwaith, lles cymdeithasol) sydd ar gael. Gall pawb fwynhau cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon.

23 Mae gan bob oedolyn hawl i swydd, cyflog teg ac ymuno ag undeb llafur.

24 Mae gan bawb hawl i orffwys ac amser sbâr.

25 Mae gan bawb hawl i ansawdd bywyd da, gan gynnwys digon o fwyd, dillad, tai a chymorth meddygol os byddwn yn sâl. Mae gan famau a phlant a phobl hŷn, ddi-waith neu anabl hawl i gael gofal.

26 Mae gan bawb hawl i addysg.

27 Mae gennym hawl i rannu celfyddydau a gwyddoniaeth ein cymuned, ac unrhyw ddaioni maen nhw'n ei wneud.

28 Rhaid cael heddwch a threfn i amddiffyn yr hawliau a rhyddidau hyn, a gallwn eu mwynhau yn ein gwlad a dros y byd i gyd.

29 Mae gennym ddyletswydd i bobl eraill, a dylem amddiffyn eu hawliau a'u rhyddid.

30 Ni all unrhyw un fynd â'r hawliau a rhyddidau oddi wrthym.

Mae'r fersiwn hon o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wedi cael ei symleiddio gan Amnesty International UK, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol i bobl iau. Gallwch lawrlwytho fersiwn llawn ar **www.amnesty.org.uk/universal**

Gweithgaredd 8

Cwilt lluniau hawliau plant

Bydd angen

- **Taflen Adnoddau 1** Gwnewch hwn yn fwy a'i arddangos
- **Taflen Adnoddau 2** Datganiadau (wedi'u torri a'u rhoi mewn bocs neu het)
- **Taflen Adnoddau 3** Templed o gwilt lluniau (un fesul grŵp)
- Darn o bapur neu ddefnydd (un fesul plentyn, yn unol â'r templed)
- Hirsgwar mawr o ddefnydd neu bapur i'w roi ar gefn y cwilt

Ar gyfer y gweithgaredd ymestyn yn unig:

- **Pasport Fy Hawliau** (un fesul plentyn, rhad ac am ddim, gweler isod i archebu)

7+ oed **2-3 awr**

Nod

Annog plant i ddysgu a meddwl am yr hawliau yn Natganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy greu cwilt i blant i esbonio erthyglau allweddol.

Beth i'w wneud

Gwnewch Daflen Adnodd 1 yn fwy a'i arddangos. Yn fyr, cyflwynwch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dywedwch wrth y dosbarth eu bod nhw'n mynd i ddysgu am yr hawliau hyn a'u dangos mewn arddangosfa fawr.

Hawliau'r plentyn

Esboniwch fod nifer o gyfreithiau rhyngwladol wedi'u creu ar ôl cytuno ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, er mwyn amddiffyn hawliau grwpiau penodol o bobl. Mae un o'r cyfreithiau hyn yn diogelu hawliau dynol plant.

Yr enw am hwn yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a chafodd ei lunio gan arweinwyr y byd dros 20 mlynedd yn ôl. Mae'n nodi hawliau'r dau biliwn o blant a phobl ifanc dan 18 oed yn y byd, a'u hanghenion am ofal a help arbennig. Mae'n dweud beth ddylai llywodraethau ei wneud i helpu i gyflawni'r hawliau hyn. Daeth yn rhan o'r gyfraith ryngwladol ym 1989. Mae bron i bob gwlad yn y byd wedi addo gwireddu'r hawliau yn y Confensiwn ar gyfer plant.

Mae'r Confensiwn yn rhoi dros 40 o hawliau i bobl ifanc, ac mae'n dweud bod gan bob plentyn hawl i fyw a thyfu; cael eu diogelu rhag niwed, perygl a thriniaeth wael; mwynhau bywyd teuluol, gofal iechyd ac addysg; cael eu trin yn deg; a rhywun i wrando ar eu syniadau.

Meimio

Rhannwch y dosbarth yn barau. Pasiwch het neu focs o gwmpas sy'n cynnwys 16 datganiad y Confensiwn (Taflen Adnoddau 2). Esboniwch mai detholiad yn unig o hawliau plant yw'r rhain.

Dylai pob pâr ddewis datganiad heb edrych (fel twba lwcus), ei ddarllen a thrafod ei ystyr (gan ofyn am help os oes angen). A ydyn nhw'n gallu meddwl am un neu ddau air fyddai'n crynhoi eu datganiad? Dylai'r parau greu meim syml i gynrychioli eu datganiad.

Gweithgaredd ymestyn

Os ydych chi wedi archebu'r Pasportau Fy Hawliau rhad ac am ddim, dosbarthwch gopïau i'r dosbarth. Gofynnwch i bob myfyriwr baru eu datganiad hawliau plant â'r erthygl yn y Pasport Fy Hawliau. Trafodwch sut mae hyn yn pwysleisio bod gan plant ac oedolion hawliau.



Pasport Fy Hawliau Amnesty, archebwch becyn dosbarth rhad ac am ddim:
01788 545553, cod cynnyrch ED112

Cwilt lluniau hawliau plant parhad

Creu cwilt
Nesaf, gofynnwch iddyn nhw greu braslun ar bapur sgrap i ddangos beth yw eu datganiad (enghreifftiau isod). Yna, gofynnwch iddyn nhw gopïo'r braslun er mwyn llenwi'r sgwâr cyfan ar eu darn o bapur neu ddefnydd, a'i liwio'n brydferth.

Dylent ysgrifennu'r geiriau ar eu datganiad yn yr hirsgwar ar frig eu tudalen.

Pan fyddant yn barod, dylai'r holl plant ffurfio cylch. Yn eu tro, gofynnwch i'r parau berfformio eu meim. Heriwch weddill y dosbarth i ddyfalu pa hawl sy'n cael ei bortreadu. Yna gofynnwch i'r pâr sy'n perfformio ddarllen eu datganiad a dangos eu llun.

Dylai'r athro ysgrifennu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel teitl mawr i'w ludo ar draws y cwilt – gall y plant helpu. Gweler Taflen Adnoddau 3 Templed o gwilt lluniau i'ch helpu. Dylid gludo neu wnïo lluniau'r plant, eu datganiadau o'r Confensiwn a'r pennawd ar daflen gefndir fawr o bapur neu ddefnydd.

Gellir ei gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol am y Confensiwn, gan daflunio'r lluniau ar Powerpoint wrth i'r artistiaid berfformio eu meimiau a darllen eu hawliau. Gellir arddangos y cwilt lluniau hawliau plant yn gyhoeddus yn yr ysgol, ar 20 Tachwedd o bosibl (Diwrnod Hawliau Plant Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig).

SYNIADAU ARDDANGOS ERAILL

Yn hytrach na chwilt, gall plant ddarlunio eu datganiadau o'r Confensiwn trwy:

- baentio ar deils;
- creu modelau clai neu blastar bach ar gyfer pob hawl;
- creu *collage* o ddeunyddiau neu sgwariau wedi'u brodio;
- paentio ar sidan gyda 'gutta' neu amlinellwr ac inciau defnydd;
- creu printiau leino.

Mae gan bob plentyn hawl i siarad ei iaith ei hun ac arfer ei grefydd ei hun.

Mae gan bob plentyn hawl i gwrdd â'i ffrindiau ac ymuno â grwpiau.

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 6.

Gweithgaredd 8 TAFLEN ADNODDAU 1

Hawliau plant

Rhai hawliau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gan bob plentyn hawl i fyw.

Mae gan bob plentyn hawl i enw a chenedligrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i fod gyda'i deulu neu gyda'r rhai fydd yn gofalu amdanynt orau.

Mae gan bob plentyn hawl i ddigon o fwyd a dŵr glân.

Mae gan bob plentyn hawl i ansawdd bywyd digonol.

Mae gan bob plentyn hawl i ofal iechyd.

Mae gan bob plentyn anabl hawl i ofal a chymorth arbennig.

Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae.

Mae gan bob plentyn hawl i breifatrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg.

Mae gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a pheidio cael ei niweidio neu ei esgeuluso.

Ni ddylid defnyddio unrhyw blentyn fel llafur rhad neu fel milwr.

Ni ddylai plant sy'n torri'r gyfraith gael eu trin yn greulon.

Mae gan bob plentyn hawl i siarad ei iaith ei hun ac arfer ei grefydd ei hun.

Mae gan bob plentyn hawl i ddweud ei farn a chael ei glywed.

Mae gan bob plentyn hawl i gwrdd â'i ffrindiau ac ymuno â grwpiau.

Dyma ddetholiad o hawliau o'r Confensiwn. I weld y fersiwn llawn, ewch i **www.unicef.org/crc**

Gweithgaredd 8 TAFLEN ADNODDAU 2

Datganiadau hawliau plant

Torrwch ddatganiadau'r Confensiwn a'u rhoi mewn bocs ar gyfer gweithgaredd twba lwcus.

Mae gan bob plentyn hawl i fyw.

Mae gan bob plentyn hawl i breifatrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i enw a chenedligrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg.

Mae gan bob plentyn hawl i fod gyda'i deulu neu gyda'r rhai fydd yn gofalu amdanynt orau.

Mae gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a pheidio cael ei niweidio neu ei esgeuluso.

Mae gan bob plentyn hawl i ddigon o fwyd a dŵr glân.

Ni ddylid defnyddio unrhyw blentyn fel llafur rhad neu fel milwr.

Mae gan bob plentyn hawl i ansawdd bywyd digonol.

Ni ddylai plant sy'n torri'r gyfraith gael eu trin yn greulon.

Mae gan bob plentyn hawl i ofal iechyd

Mae gan bob plentyn hawl i siarad ei iaith ei hun ac arfer ei grefydd ei hun.

Mae gan bob plentyn anabl hawl i ofal a chymorth arbennig.

Mae gan bob plentyn hawl i ddweud ei farn a chael ei glywed.

Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae.

Mae gan bob plentyn hawl i gwrdd â'i ffrindiau ac ymuno â grwpiau.

Gweithgaredd 8 TAFLEN ADNODDAU 3

Templed o gwilt lluniau



Taflen gefndirol o bapur neu ddefnydd



Templed o gwilt lluniau parhad

Dyma enghraifft o sut gall eich cwilt lluniau hawliau plant edrych.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gan bob plentyn hawl i gwrdd â'i ffrindiau ac ymuno â grwpiau.

Mae gan bob plentyn hawl i fyw.

Mae gan bob plentyn hawl i enw a chenedligrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i fod gyda'i deulu neu gyda'r rhai fydd yn gofalu amdanynt orau.



Mae gan bob plentyn hawl i ddigon o fwyd a dŵr glân.

Mae gan bob plentyn hawl i ansawdd bywyd digonol.

Mae gan bob plentyn hawl i ofal iechyd.

Mae gan bob plentyn anabl hawl i ofal a chymorth arbennig.

Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae.

Mae gan bob plentyn hawl i breifatrwydd.

Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg.

Mae gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a pheidio cael ei niweidio neu ei esgeuluso.



Ni ddylid defnyddio unrhyw blentyn fel llafur rhad neu fel milwr.



Ni ddylai plant sy'n torri'r gyfraith gael eu trin yn greulon.

Mae gan bob plentyn hawl i siarad ei iaith ei hun ac arfer ei grefydd ei hun.



Mae gan bob plentyn hawl i ddweud ei farn a chael ei glywed.

Lluniau o hawliau plant gan blant ysgol gynradd o'r DU a Ffederasiwn Rwsia.

Gweithgaredd 9

Ffoaduriaid – daethant am fod rhaid iddynt

Bydd angen

- **Taflen adnoddau 1** Stori tŷ Ewythr Ali (i'r athro)
- **Taflen adnoddau 2** Taflen waith **teulu Ewythr Ali (un fesul grŵp)**
- **Taflen adnoddau 3** Bygythiad yn erbyn Ewythr Ali
- **Powerpoint** Ffoaduriaid – daethant am fod rhaid iddynt
- Papur a beiros (fesul grŵp)

Nod

Annog plant i feddwl am sefyllfa ffoaduriaid a'r hawl i geisio lloches gan ddefnyddio cwis, stori a chwarae rôl.

9+ oed **1-2 awr**

Beth i'w wneud

Gan ddefnyddio'r Powerpoint Ffoaduriaid, dangoswch y rhestr o enwau enwog (1 a 2 isod). Beth sydd gan y bobl hyn yn gyffredin? Pa brofiad unigol maen nhw wedi'i rannu?

Esboniwch bod pob un (a miliynau ar filiynau o bobl eraill) wedi gorfod gadael eu gwledydd fel ffoaduriaid.

Gofynnwch i'r plant am enwau unrhyw ffoaduriaid y gallan nhw feddwl amdanynt, efallai yn eu teuluoedd eu hunain.

Diffiniadau

Yna gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu eu diffiniadau nhw o:

- erlid;
- ffoadur;
- ceisiwr lloches (gweler isod, 3).

Rhannwch, trafodwch a cymharwch ddiffiniadau – cofnodwch eich atebion ar y bwrdd, gan ychwanegu unrhyw eiriau angenrheidiol i bwysleisio elfennau allweddol.

Yn awr, dangoswch y sleidiau (isod, rhif 4-6) a siaradwch am y diffiniadau.

Mae ERLID yn golygu trin pobl eraill mewn ffordd greulon yn barhaus oherwydd eu hil, crefydd, gwleidyddiaeth neu wahaniaeth arall. Yn yr ysgol, mae bwlio'n fath o erlid.

Mae FFOADUR yn rhywun sydd wedi gadael ei wlad ei hun gan fod arno ofn y bydd yn cael ei erlid (cam-drin) oherwydd ei grefydd, credoau gwleidyddol neu ymddygiad cymdeithasol. Pan roddir statws ffoadur i chi gan wlad arall, cewch fyw yn y wlad honno, yn rhydd o niwed. Mae llawer o bobl yn ystyried eu hunain yn ffoaduriaid, ac yn cael eu hystyried yn rhai gan bobl eraill, p'un a ydynt wedi cael eu cydnabod yn swyddogol gan lywodraeth y wlad lle maen nhw'n ceisio lloches ai peidio.

Mae CEISIWR LLOCHES yn rhywun sydd wedi dianc o'i wlad enedigol gan ofni cael ei erlid, sydd wedi gofyn i lywodraeth gwlad arall ei gydnabod fel ffoadur ac sy'n aros am ei benderfyniad.

Ffoaduriaid yn y byd

C Gofynnwch i'r dosbarth faint o ffoaduriaid sydd yn y byd.

A Tua 22.5 miliwn (2016) – maen nhw wedi gorfod dianc erlrdigaeth yn eu gwlad eu hunain i chwilio am ddiogelwch yn rhywle arall.

Gweithgaredd 9
Ffoaduriaid parhad

Dangoswch y map cyntaf (Sleid 7) sy'n dangos rhai o'r prif wledydd y mae ffoaduriaid wedi dianc ohonynt yn y blynyddoedd diweddar: Syria, Affganistan a De Swdan.

C Pa ganran o ffoaduriaid sydd yn y DU?

A Llai nag 1%

Dangoswch yr ail fap (sleid 8) sy'n rhestru'r gwledydd sy'n derbyn y nifer fwyaf o ffoaduriaid. Mae'n dangos bod y rhan fwyaf o ffoaduriaid yn dianc o un wlad dlawd i chwilio am ddiogelwch mewn gwlad dlawd arall gerllaw.

© AI

Ffoaduriaid mewn gwersyll ar y ffin rhwng Serbia a Hwngari, 2016

Tŷ Ewythr Ali

Yn awr, darllenwch Taflen Adnoddau 1 *Stori tŷ Ewythr Ali* i'r dosbarth. Mae'n stori ryngweithiol am brofiadau un teulu. Bydd y plant yn cael eu gwahodd i gamu i esgidiau'r teulu wrth iddyn nhw wynebu perygl ac erlid cynyddol, penderfynu a fyddant yn dianc, mentro ar daith beryglus i'r ffin a cheisio lloches mewn gwlad arall. Mae'n stori ffuglennol ond, mewn sawl ffordd, mae'n stori wir hefyd – i 22.5 miliwn o bobl.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump, a dosbarthwch daflenni o bapur siart droi, pinnau ffelt a chopïau o Daflen Adnodd 2 *Taflen waith teulu Ewythr Ali*.

Darllenwch y stori, gan stopio mewn mannau perthnasol yn ôl y cyfarwyddyd, fel bod modd i'r grwpiau gwblhau dwy dasg:

1. Pwy ddylai fynd?
2. Beth ddylen nhw fynd gyda nhw?

Ar ddiwedd y stori, dychwelwch i pan ddywedoch chi bod y stori ffuglennol hon yn wir mewn 22.5 miliwn o achosion. Mae dros 22.5 miliwn o ffoaduriaid yn y byd, a bydd llawer ohonyn nhw wedi goroesi profiadau tebyg.

Trafodaeth

- Sut oedd hi'n teimlo i fod mewn esgidiau ffoadur?
- Oedden nhw'n credu bod y ffordd y cawsant eu trin ar y ffin yn deg?
- Ydy hyn wedi newid eu barn am geiswyr lloches yn y wlad hon?

Estyniad/gwaith cartref

- Gall plant fynegi eu teimladau am y weithgaredd hon mewn cerdd neu lun.

Sylwer

Efallai y bydd rhai o'r plant yn eich dosbarth yn ffoaduriaid eu hunain, neu'n adnabod aelodau o'u teulu sydd wedi bod trwy brofiadau tebyg. Cynhaliwch y gweithgaredd hwn mewn modd sensitif.

© Marie-Anne Ventoura

Youth Conference 2017

Ffynhonnell: Mae'r holl ystadegau o 2016 *Global Trends report, The United Nations Refugee Agency*, www.unhcr.org

Gweithgaredd 9 TAFLEN ADNODDAU 1

Stori tŷ Ewythr Ali

Darllenwch y stori hon i'r dosbarth

RHAN 1
YR ERLID

Rydym ni'n byw yn nhŷ Ewythr Ali yn y ddinas.

Mae Ewythr Ali yn ddyn crefyddol a deallus iawn. Cafodd ei garcharu unwaith am ei syniadau. Cafodd anaf ac bellach mae'n gloff. Mae Dad yn gweithio i bapur newydd ac mae'n arweinydd yn undeb llafur y newyddiaduron. Mae'n gyrru hen gar. Mae Mam yn aros gartref gyda'r babi. Rwy'n ferch 10 oed sy'n hoffi mathemateg a chanu. Mae fy mrawd yn naw oed. Mae'n chwarae pêl-droed ac mae'n hoffi gwyddbwyll. Mae'n rhaid i Nain ddefnyddio ffrâm gerdded ers ei strôc.

Fis diwethaf, meddiannodd y fyddin ein gwlad mewn chwyldro (sy'n golygu eu bod nhw wedi cael gwared â'r llywodraeth a'r milwyr sy'n rheoli). Newidiodd popeth. Gwelson ni filwyr ar y strydoedd. Clywson ni saethu. Roedd pobl yn cael eu cymryd mewn tryciau. Gosododd y fyddin gyrffyw sy'n gorfodi pawb i aros dan do ar ôl 9pm. Maen nhw wedi meddiannu'r teledu a'r radio ac yn chwarae cerddoriaeth filwrol drwy'r dydd. Mae'n anodd gwybod beth sy'n digwydd. Mae rhai undebau llafur, gan gynnwys un Dad, wedi cael eu gwahardd.

Yn y dref, mae rhai arweinwyr crefyddol wedi 'mynd ar goll' dan amgylchiadau dirgel. Mae tri o ffrindiau Dad o'r gwaith wedi 'diflannu'. Mae pobl yn dweud bod y fyddin wedi'u mynd â nhw oddi yno. Ble allen nhw fod? Pwy a ŵyr?

Roedd poster wedi'i ludo ar y ffens ger ein tŷ. Ar y top, roedd yn dweud 'Y Gelynion'. O dan hynny, roedd rhestr o enwau, gan gynnwys enwau Dad ac Ewythr Ali. Ar y gwaelod, roedd llun o benglog a gwn Kalashnikov. Roedd llofnod 'Cyfeillion y Famwlad' arno. Pwy ydyn nhw? Pwy a ŵyr? Rhwygodd Mam y poster i lawr.

Yr wythnos diwethaf, daeth milwyr i'r ysgol yn chwilio am ŵr ein menyw cinio. Doedd e ddim yna, felly dyma nhw'n ei llusgo hi i ffwrdd gyda dau o'i phlant wrth iddi weiddi 'Ond dy'n ni ddim wedi gwneud unrhyw beth!'

Ddoe, clywodd fy mrawd y blwch llythyrau'n ysgwyd. Rhedodd i lawr y grisiau yn ei byjamas. Gwelodd gerdyn crychiog ar y llawr gyda neges wedi'i greu o lythrennau a geiriau wedi'u torri o bapur newydd a'u gludo i ddweud:

> 'Heno fyddwch chi'n marw. Rydych chi'n elynion ac yn faw isa'r domen.' Roedd llofnod Cyfeillion y Famwlad arno.

Rhedodd fy mrawd i'r stryd ond doedd neb yno. Pwy yw'r bobl ddychrynllyd hyn? Beth yw ystyr hyn?

Heddiw, canodd y ffôn. Cododd Ewythr Ali'r ffôn. Clywodd lais yn dweud bod lle mae Ali'n gweddïo ar dân. 'Ac maen nhw'n mynd i ollwng bom ar eich tŷ chi hefyd. Rhedwch.' Yna aeth y ffôn yn ddistaw.

BANG! Clywsom ffrwydro. Mae tanciau'r fyddin yn Sgwâr y Dref. Mae pob ffordd allan o'r dref wedi'i gau gyda weiren bigog a phwyntiau milwrol. Mae'r milwyr yn chwilio drwy'r traffig. Mae'r orsaf wedi cau. O NA! Maen nhw'n mynd trwy'r tai ac yn arestio pobl.

Mae Dad yn dweud ein bod ni mewn perygl. Beth ddylwn ni ei wneud nawr? Mae Ewythr Ali'n meddwl tybed a allwn ni ddianc dros y ffin i'r wlad nesaf a cheisio lloches yno fel ffoaduriaid. Ond mae hynny bum diwrnod i ffwrdd trwy'r anialwch poeth a dros y mynyddoedd. Mae Mam yn dweud y bydd hynny'n beryglus. Ond a fydd hi'n fwy peryglus byth os byddwn ni'n aros? A beth ddylwn ni fynd gyda ni?

STOPIWCH y stori

Tasg 1: Pwy ddylai fynd?
Dosbarthwch feiro a thaflen Teulu Ewythr Ali i bob grŵp. Rhaid iddyn nhw benderfynu pwy ddylai fynd a phwy ddylai aros (os o gwbl). Mae ganddyn nhw bum munud i benderfynu: Pwy yw'r mwyaf bregus? Pwy fydd yn cael trafferth teithio ac yn arafu'r grŵp? Beth allai ddigwydd i unrhyw un sy'n cael ei adael ar ôl? Dylai'r grwpiau siarad am eu penderfyniadau a'u pryderon.

AIL-DDECHREUWCH y stori

Yn y pen draw, mae fy nheulu'n penderfynu y bydd pawb yn mynd. Bydd angen i ni gerdded, yn aml gyda'r nos, ar draws yr anialwch, a dros y mynyddoedd oer i gyrraedd y ffin. A fyddwn ni byth yn cyrraedd?

Mae Nain yn ein hatgoffa bod angen i ni gario popeth fydd ei angen arnom gyda ni. Rhaid i ni bacio'r pethau hanfodol yn unig, a manion pwysig sy'n angenrheidiol er mwyn goroesi'r daith hir, croesi'r ffin yn ddiogel a dod yn ffoaduriaid. Mae Nain yn dweud ei bod hi'n gallu clywed y fyddin yn agosau ar y stryd yn barod.
Brysiwch!

Stori tŷ Ewythr Ali parhad

STOPIWCH y stori eto

Tasg 2: Beth ddylen nhw fynd gyda nhw?
Rhaid i bob grŵp greu rhestr o'r 10 peth hanfodol y mae'n rhaid i'r teulu eu pacio ar gyfer eu taith ac i'w helpu i groesi'r ffin. Mae ganddyn nhw dri munud i benderfynu beth i fynd gyda nhw.

AIL-DDECHREUWCH y stori

Ar ôl taith flinderus a dychrynllyd, cyrhaeddom y ffin, wedi blino'n lân, yn llwglyd ac yn ofnus ond yn fyw. Roedd y babi'n sâl. Roedd Nain yn crio. Ond roedden ni wedi cyrraedd. Yna dyma ni'n cwrdd â'r Swyddog Mewnfudo a'r gwarchodlu. Ceision ni ddweud wrthyn nhw ein bod ni eisiau bod yn ffoaduriaid yn eu gwlad oherwydd ein bod ni mewn perygl yn ein gwlad ni. Ond doedden nhw ddim yn ein credu ni.

Dywedon nhw: 'Profwch bod eich stori'n wir. Efallai eich bod chi'n dweud celwydd.' Agoron nhw ein bagiau. A'n gorfodi i lenwi ffurflenni nad oedden ni'n eu deall. A fyddan nhw'n gadael i ni aros?

RHAN 2
RHEOLI'R FFIN

Yn y gweithgaredd chwarae rôl hwn, bydd yr athro'n chwarae rôl swyddog mewnfudo ar y ffin. Bydd y grwpiau'n chwarae rôl teulu Ewythr Ali.

Fel y Swyddog Mewnfudo, gofynnwch i'r grwpiau:
- Pam ydych chi wedi dod i'r wlad hon?
- Ydych chi'n chwilio am swydd newydd?
- Ydych chi'n ceisio symud yma oherwydd bod gennym ni ofal iechyd da ac ysgolion da?

Os bydd y grwpiau'n dweud wrthych eu bod nhw'n dianc rhag cael eu herlid, gofynnwch iddyn nhw:
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi eich bod chi'n dianc rhag cael eich erlid?
- Beth sydd yn eich bagiau?

Edrychwch ar eu rhestrau i weld a ydyn nhw wedi dod â thystiolaeth o'u herledigaeth gyda nhw yn eu bagiau. Os oes unrhyw un o'r grwpiau wedi dod â'r llythyr bygwth neu'r poster 'Y Gelynion', gofynnwch i'w weld. A allant brofi ei fod yn un go iawn, ac nid copi ffug?

Efallai y bydd rhai grwpiau wedi cynnwys cyllell, gwn neu arf o ryw fath ar eu rhestrau. Dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n trefnu iddyn nhw gael eu harestio rhag ofn eu bod yn bobl peryglus neu'n derfysgwyr, hyd yn oed.

Ar ôl chwarae rôl, esboniwch er bod y gweithgaredd hwn yn un ffuglennol, mae llawer o bobl sy'n dianc o gael eu herlid yn cael trafferth profi i swyddogion mewnfudo eu bod nhw'n haeddu cael eu helpu fel ffoaduriaid.

Taflen waith teulu Ewythr Ali

Dad	Babi	Merch
Ewythr Ali	Bachgen	Nain
Mam		

Pwy ddylai fynd a phwy ddylai aros?

Beth ddylen nhw fynd gyda nhw? Rhestrwch 10 eitem

Gweithgaredd 9 **TAFLEN ADNODDAU 3**

Bygythiad yn erbyn Ewythr Ali

Rhan 1

Gweithredu dros hawliau dynol mewn ysgolion

Bydd angen

- **Taflen Adnoddau 1** Dyfyniad Eleanor Roosevelt (un fesul plentyn neu ei ddarllen yn uchel)
- **Taflen Adnoddau 2** Beth, pam, pwy, sut? (un fesul grŵp)
- **Taflen Adnoddau 3** Syniadau ar gyfer gweithredu (un fesul grŵp)
- **Taflen Adnoddau 4** Grid pwyso a mesur (un fesul grŵp)
- Papur nodiadau gludiog
- Darn mawr o bapur a beiros

Nod

Datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddisgyblion amlygu'r hyn sydd angen ei newid i ddiogelu hawliau dynol yn eu hysgol, a chyfiawnhau pam mae'r mater hwnnw'n bwysig

7+ oed **1-2 awr**

(Gellir ymestyn y gweithgaredd i hanner tymor llawn)

Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maen nhw'n ei wybod neu beth maen nhw wedi'i ddysgu am hawliau dynol a beth yw eu hawliau. Rhannwch y dyfyniad gan Eleanor Roosevelt (Taflen Adnoddau 1) am bwysigrwydd diogelu hawliau dynol yn ein cymunedau.

Canolbwyntiwch ar y llinell olaf ac esboniwch bod hawliau dynol yn cael eu gwireddu pan fydd pobl yn sefyll dros hawliau dynol ac yn siarad dros hawliau pobl eraill.

Gofynnwch: A oes llais gennych chi? A allwch chi newid pethau? Ydych chi'n cael eich annog i feddwl am syniadau i wella'r ysgol? Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth? I ysbrydoli plant hŷn, dangoswch y ffilm fer I Talk Out Loud, **www.vimeo.com/29140974** sy'n dangos aelodau o grwpiau ieuenctid Amnesty'n gweithredu dros hawliau dynol.

Sylwer: Mae'r achos y mae'r grŵp ieuenctid yn gweithio arno yn ymwneud â llabyddio (*stoning*).

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu ar nodyn gludiog beth sy'n eu gwneud nhw'n grac neu'n anghyfforddus yn ystod y diwrnod ysgol. Pa hawliau dynol sy'n cael eu peryglu neu eu hanwybyddu? Neu, gofynnwch iddyn nhw sut gall y gymuned ysgol barchu hawliau yn well.

Democratiaeth ar lawr gwlad

Esboniwch eich bod chi'n mynd i feddwl am sut i wneud i'r ysgol barchu hawliau yn well trwy archwilio beth maen nhw eisiau ei newid a pham.

Gofynnwch iddyn nhw roi eu nodiadau gludiog sy'n dangos eu syniadau ar y llawr neu'r wal a rhowch amser i bawb eu darllen.

A oes unrhyw rai o'r materion yr un fath neu'n debyg? Anogwch y myfyrwyr i symud nodiadau gludiog o gwmpas i greu grwpiau.

Fel dosbarth, edrychwch ar y grwpiau a grewyd a chytuno ar benawdau ar gyfer pob un. Dylech gydnabod yr holl rwystredigaethau a'r pryderon sy'n cael eu codi fel bod eich myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Efallai yr hoffech fynd i'r afael â rhai ohonynt yn benodol.

Sylwer: Parhewch yn y grwpiau (rhannwch ddisgyblion i'w grwpiau yn ôl mater), neu pleidleisiwch ar un mater yr hoffai'r dosbarth cyfan weithio arno.

Gofynnwch i'r grwpiau ateb y cwestiynau ar Daflen Adnoddau 2 *Beth, pam, pwy, sut*? Bydd hyn yn rhoi syniadau iddyn nhw am sut i fynd ati i ymgyrchu ar y mater hwn. Os yw'r dosbarth yn gweithio ar un ymgyrch, llenwch Daflen Adnodd 2 gyda'ch gilydd. I helpu, dylai pawb ddarllen Taflen Adnoddau 3 Syniadau ar gyfer gweithredu. Gofynnwch i'r grwpiau gyflwyno eu syniadau. Anogwch adborth, gan fyfyrio ar: Beth sy'n gweithio'n dda am eich syniad… Gallai fod yn well fyth pe bai…

Pwyso a mesur

Gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu pob un o'u gweithredoedd ar y Grid pwyso a mesur (Taflen Adnoddau 4). Helpwch nhw i ystyried pa mor hawdd ac effeithiol maen nhw'n meddwl yw pob gweithred.

Ymestyn

- A all pob grŵp/dosbarth ddewis gweithred effeithiol a chyflawnadwy? Mae'r weithgaredd hon fwyaf effeithiol os yw myfyrwyr yn rhoi eu cynlluniau ar waith – ac yn gallu rhoi adborth ar gynnydd.
- Trefnwch siaradwr Amnesty i gefnogi ymgyrchu parhaus neu i siarad am ymgyrchu Amnesty ar **www.amnesty.org.uk/speakers**

Nodyn

Gall hon fod yn wers unigol ond dylai'r myfyrwyr ddeall egwyddorion sylfaenol hawliau dynol, bod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen, a gwerthfawrogi bod disgwyliadau'n cyd-fynd â hawliau. Efallai yr hoffech gwblhau Gweithgaredd 4 *Hawliau a chyfrifoldebau yn y dosbarth* yn gyntaf.

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o Making Human Rights Real, Topic 15*15.*

Dyfyniad Eleanor Roosevelt

'Wedi'r cyfan, ble mae hawliau dynol cyffredinol yn dechrau? Mewn mannau bach, yn agos at adref; mor agos ac mor fach, nid oes modd eu gweld ar unrhyw fap o'r byd. Ond dyma fyd yr unigolyn; ei gymdogaeth, yr ysgol neu goleg mae'n ei fynychu, y ffatri, fferm neu'r swyddfa lle mae'n gweithio. Dyma lle mae pob dyn, menyw a phlentyn yn gobeithio am gyfiawnder cyfartal, cyfle cyfartal, urddas cyfartal heb wahaniaethu. Os nad oes gan yr hawliau hyn ystyr yno, nid oes llawer o ystyr ganddynt yn unrhyw le. Heb weithredu gan ddinasyddion i'w cynnal yn agos at adref, nid oes llawer o obaith am gynnydd yn y byd ehangach'

Dyfyniad Eleanor Roosevelt

Cadeirydd Comisiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a greodd y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol, 1948

© Franklin D Roosevelt Library website

Beth, pam, pwy, sut?

BETH yw eich problem? Beth sy'n bod a beth ddylai newid?
Pa hawliau dynol sy'n berthnasol? A oes hawliau'n cael eu gwrthod?

PAM mae'r broblem hon yn codi?

PWY all helpu i ddatrys y broblem hon?

SUT gallech eu perswadio nhw neu weithio gyda nhw i newid pethau? Pa gamau gallech chi eu cymryd?

Syniadau ar gyfer gweithredu

Dyma rai o'r bobl a allai fod â phŵer ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
A all unrhyw un ohonyn nhw eich helpu i ddatrys eich problem?

Aelodau o'r gymuned (ysgol/lleol/cenedl)
Cyngor ysgol
Athrawon, athrawon uwch a llywodraethwyr
Ffrindiau a theulu
Grwpiau cymunedol lleol
Y cyngor lleol
Yr heddlu, y gwasanaeth tân, meddygon, nyrsys
Y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol eraill
Cyrff anllywodraethol ac elusennau
Y cyfryngau

Sut gallech chi eu perswadio nhw neu weithio gyda nhw i newid pethau?
Dewiswch un neu fwy o'r gweithredoedd isod, neu meddyliwch am eich rhai eich hun.

Codi ymwybyddiaeth: newid agweddau ac ymddygiad	**Lobïo a pherswadio: newid polisïau**
Cynnal gwasanaeth	Trefnu deiseb i ddangos cefnogaeth ar gyfer eich nodau
Cynnal gweithdy ar gyfer pobl yn eich ysgol	Casglu tystiolaeth (e.e. ymchwil, cyfweliadau, fideos) a chyflwyno eich canfyddiadau i bobl sy'n gyfrifol am y broblem hon
Ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn neu bapur newydd lleol	Ysgrifennu llythyr at y bobl sy'n gyfrifol am y broblem, i'w perswadio i'ch helpu
Gofyn i oedolion helpu i greu blog neu ddechrau trafodaeth ar wefan sy'n bodoli eisoes neu ar y cyfryngau cymdeithasol	
Creu posteri gyda slogan ymgyrchu	
Trefnu arddangosfa/cystadleuaeth gelfyddydol/digwyddiad/dangos ffilm	Gwahodd eich AS lleol neu unigolyn arall mewn safle o awdurdod i'r ysgol am sesiwn holi ac ateb am y mater
Gweithio gydag eraill: cefnogi elusennau a chyrff anllywodraethol	
Trefnu digwyddiad, e.e. diwrnod dim iwnifform, stondin gacennau, sioe dalentau, i godi arian i elusen neu gorff anllywodraethol	Cysylltu ag elusen neu gorff anllywodraethol sy'n gweithio ar y mater hwn a darganfod pa weithred maen nhw'n ei argymell
Gwahodd siaradwr o elusen neu gorff anllywodraethol o'ch dewis. Gallai hyn fod yn un o siaradwyr Amnesty	

Grid pwyso a mesur

	Pa mor hawdd yw cyflawni'r weithred hon? Ystyriwch faint o amser, adnoddau, sgiliau a chyfleoedd sydd gennych chi		
	Anodd	Canolig	Hawdd
Effaith fawr			
Effaith ganolig			
Effaith fach			

Faint o effaith fydd y weithred hon yn ei chael?

Ystyriwch pa fath o bobl y gallech ddylanwadu arnynt, a faint ohonyn nhw

Gweithgaredd 10

Rhan 2

Gweithredu dros hawliau dynol trwy ysgrifennu llythyrau

Bydd angen

I greu cerdyn neu ysgrifennu llythyr at rywun sydd mewn perygl o gam-drin hawliau dynol:

- Camau Brys Iau diweddaraf Amnesty (lawrlwytho o www.amnesty.org.uk/jua, un fesul plentyn)
- Papur, beiros
- Cerdyn

Nod

Datblygu'r sgiliau angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion weithredu'n effeithiol dros hawliau dynol trwy ysgrifennu llythyrau.

7+ oed **1-2 awr**

Nodiadau i athrawon

Bob tymor, mae Amnesty International UK yn anfon Camau Brys Iau rhad ac am ddim at athrawon, sydd wedi'u dylunio'n benodol i blant 7-11 oed sefyll dros hawliau dynol trwy ysgrifennu llythyrau.

Mae Camau Brys Iau'n gofyn am apeliadau ar ran rhywun mewn angen, weithiau person ifanc arall. Maent yn cael eu hysgrifennu mewn iaith y gall plant ei ddeall. Mae'r athro'n derbyn copi o'r daflen achos wreiddiol, ynghyd â map o'r wlad dan sylw a'i chefndir, cwestiynau trafod a chanllaw ar sut i ysgrifennu llythyrau. Caiff yr holl fanylion graffig am driniaeth wael neu artaith eu dileu, ac nid yw'r achosion yn wleidyddol.

Y nod yw annog plant i helpu dioddefwyr ym mhedwar ban byd trwy ysgrifennu at swyddogion llywodraeth yn y gwledydd a'u hannog i ymyrryd. Mae pobl ifanc wedi ysgrifennu ar ran dioddefwyr cam-drin hawliau dynol mewn 50 o wahanol wledydd yn barod, gan gynnwys plant ar y stryd sy'n cael eu cam-drin gan heddlu ym Mrasil a milwyr plant yn Uganda.

Cardiau cyfarch

Unwaith y flwyddyn, rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, mae llawer o ysgolion yn cymryd rhan mewn fersiwn pobl ifanc o Ymgyrch Cardiau Cyfarch Amnesty International (addas i blant 8+ oed). Mae plant yn ysgrifennu ac yn anfon eu negeseuon o gefnogaeth a chardiau neu lythyron o undod gyda charcharwyr cydwybod a'u teuluoedd a phobl yr ymosodwyd arnynt neu sydd wedi cael eu bygwth am amddiffyn hawliau dynol. Mae nodiadau cefndir, arweiniad ar ysgrifennu llythyron, syniadau ar gyfer camau creadigol a gwybodaeth arall yn cael eu cyflenwi ar gyfer pob achos.



Junior Urgent Action

April 2017

Take action for Kamal Foroughi

Iran

Population: 80 million

Capital: Tehran

Language: Persian is the most widely spoken language

Question: What is the name of the sea north of Tehran, and what other countries surround it?

Map data ©2017 Google

KAMAL'S STORY

Kamal Foroughi is a 77-year-old British-Iranian grandfather who was arrested in 2011 by men in plain clothes.

The men did not show Kamal a warrant for his arrest or give any reason for arresting him.

Kamal was taken to Iran's Evin prison and held in solitary confinement for 18 months. Prisoners in solitary confinement are kept in a cell by themselves.

Kamal was not charged with a crime until 2012. In 2013, he was told that he had been convicted of "spying". He was sentenced to seven years in prison. Under normal Iranian release rules, he could be released any day.

Kamal was not allowed to telephone his relatives who live abroad until 2014.

Kamal Foroughi suffers from lots of different medical conditions. Before he was arrested, Kamal was told that he needs to see doctors regularly to have medical tests.

Since Kamal has been in prison his health has worsened. Kamal wasn't allowed to see a specialist doctor until late 2015. Kamal's son Kamran is worried that no one tells him about the results of his father's recent doctor appointments.

On Monday 20th March 2017, it was 6 years since Kamran and his children saw Kamal.

sample

Ewch i **www.amnesty.org.uk/write**

Gwybodaeth bwysig

Sylwer bod yr holl achosion sy'n cael eu cynnwys yn y Camau Brys Iau a'r Ymgyrch Cardiau Cyfarch yn sensitif o ran amser; mae ymchwilwyr Amnesty'n canfod yr adeg gywir i weithredu dros unigolion sydd mewn perygl, a'r math mwyaf priodol o gam gweithredu. Mae angen i'n camau newid yn aml – neu orffen yn gyfan gwbl – i ymateb i newidiadau i amgylchiadau'r unigolyn. Efallai y gall anfon llythyrau ar ôl cau cam fod yn wrth-gynhyrchiol weithiau.

Am Gam Brys Iau cyfredol, ewch i www.amnesty.org.uk/jua

Gweithredu dros hawliau dynol ysgrifennu llythyrau parhad

Beth i'w wneud

Dywedwch wrth y dosbarth eu bod nhw'n mynd i amddiffyn hawliau dynol.

Esboniwch beth yw rhwydwaith Camau Brys Iau Amnesty International, gan egluro y gall llythyrau, cardiau a chymorth wneud i lywodraethau a phobl ledled y byd dalu sylw pan fydd pobl yn cael eu trin yn annheg. Gall cerdyn hefyd wneud i rywun deimlo'n llai unig a rhoi gobaith iddo. Dyna pam mae ysgrifennu llythyrau mor bwysig.

Dosbarthwch gopi o'r Camau Brys Iau diweddaraf i bob disgybl fel enghraifft, gan oedi i drafod y cwestiynau allweddol fel dosbarth neu mewn parau.

Gofynnwch i'r plant ysgrifennu eu llythyr apelio eu hunain am yr achos hawliau dynol hwn. Defnyddiwch yr arweiniad a ddarperir ar y Camau Brys Iau. Darparwch ddechreuad i'r brawddegau neu ffrâm ysgrifennu yn ôl yr angen. Gallwch weld adnoddau i'ch helpu i ysgrifennu llythyrau ar **www.amnesty.org.uk/pop**

Dylai llythyron apelio gael eu hysgrifennu'n ofalus, yn daclus ac yn gwrtais, yng ngeiriau'r plentyn. Efallai gallech annog y dosbarth i ysgrifennu eu drafftiau eu hunain, ac yna chopi terfynol ar ôl gwirio'r sillafu, efallai gyda darlun neu addurn. Efallai gallai plant ddweud rhywbeth am eu hunain neu eu hardal, neu rhyw gysylltiad gyda'r wlad maen nhw'n ysgrifennu ati neu'r achos dan sylw. Rydym ni'n awgrymu iddyn nhw eu llofnodi gyda'u henwau cyntaf yn unig, a rhoi'r ysgol fel cyfeiriad.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol i grwpiau o blant gymharu llythyrau. Apeliadau yw'r rhain, felly dylai'r llythyr esbonio'r broblem yn glir a gofyn i'r swyddog wneud rhywbeth. Dylid gofyn am ymateb bob amser.

Dylid ysgrifennu enw a chyfeiriad cywir y swyddog ar y brig ar yr ochr chwith, gyda'r dyddiad oddi tano. Dylid ysgrifennu manylion y person sy'n anfon y llythyr – enw, oedran a chyfeiriad yr ysgol – ar waelod y dudalen ar y chwith. Dylai enw'r unigolyn yn yr achos ymddangos fel pennawd mewn PRIFLYTHRENNAU.

Ffynhonnell: *Our World Our Rights,* Activity 30.

Amnesty International UK
Human Rights Action Centre, 17-25 New Inn Yard
London EC2A 3EA +44 (0) 20 7033 1777
sct@amnesty.org.uk

Gogledd Iwerddon
+44 (0) 28 9064 3000
nireland@amnesty.org.uk

Yr Alban
66 Hanover Street
Edinburgh EH2 1EL
+44 (0) 844 800 9088
scotland@amnesty.org.uk

Dewch i ymweld â ni ar:
www.amnesty.org.uk/education

AMNESTY INTERNATIONAL